Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda


Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4624A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon 19

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a'u bod yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, argyfwng yr hinsawdd, pwysau chwyddiannol ar gyllid cyhoeddus, prinderau yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Hefyd, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio, felly, i roi'r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan mwyaf lle'r oedd yn bosibl, gan ddefnyddio technoleg, ond fe ailddechreuwyd peth gwaith archwilio ar y safle lle'r oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gwneud gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i wreiddio newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.

5 Cafodd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig ei fyrhau o ddwy wythnos o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 15 Gorffennaf 2024. Fe ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, gan olygu y cwrddwyd â'r terfyn amser. Mae hyn yn adlewyrchu cydymdrech wych gan fy staff a chan swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn dal i gyd-fynd â'r heriau ar ôl y pandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'u cyflawnir yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

[1] Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions). Corff anllywodraethol ydyw a chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal ar y gweill, ond nad yw wedi cael ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 30 Ionawr 2025. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, fe ddygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer gwella.

13 Fodd bynnag, fe wnes i amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra. Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, fe amodwyd y farn ynglŷn â rheoleidd-dra am na wnaeth y Bwrdd Iechyd gwrdd â'i ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, fe osodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i amlygu'r methiant i fantoli'r cyfrifon a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- mae strwythur gweithrediadau cyfredol y Bwrdd Iechyd yn gymhleth gan arwain at linellau atebolrwydd aneglur, ac anghysonderau mewn trefniadau llywodraethu ar draws ei gyfarwyddiaethau. Er bod y Bwrdd Iechyd yn symud ymlaen gyda'i strwythur gweithrediadau newydd, sy'n cyflwyno

cyfleoedd i wella trefniadau llywodraethu, mae oedi wrth gyflwyno’r strwythur newydd yn achosi ansefydlogrwydd o fewn timau arwain cyfarwyddiaethau oherwydd swyddi gwag heb eu llenwi. Mae trefniadau llywodraethu o fewn y Gyfarwyddiaeth Cyllid, Digidol a Pherfformiad yn fwy eglur, ond ceir cyfle i’w cryfhau.

- ni chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol ar gyfer 2023-24 ac mae ei hanes o gyflawni arbedion cylchol yn wael. O ystyried y sefyllfa ariannol sy’n gryn her yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25, mae taer angen iddo ymdrin â’r ffactorau sy’n dylanwadu ar ei gostau a chryfhau ei drefniadau ar y cyfan ar gyfer adnabod, cyflawni, a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau i atal ei sefyllfa ariannol rhag dirywio ymhellach.
- mae trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu’n effeithiol, er gwaethaf cyfnod o newid sylweddol, gyda nifer fach o feysydd y gellid eu gwella ymhellach. Er bod y sefyllfa ariannol ar gyfer 2024-25 yn dal i fod yn her eithriadol, mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i’w roi ei hun ar sylfaen fwy cynaliadwy.

16 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Trwy gyfrwng y cyfrifon y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn ynglŷn â'u cywirdeb a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ('rheoleidd-dra').

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi'r risgiau allweddol mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn **Arddangosyn 4**, **Atodiad 3**.

19 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer gwella.

21 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) i gael eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe wnaeth fy Arweinydd Ymgymeriad Archwilio Ariannol y materion hyn yn hysbys ar 9 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a wnaed yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Fe wnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft, nad effeithiodd yr un ohonynt ar y diffyg yr adroddwyd arno. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion arwyddocaol eraill | Fe amodais fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra ac fe gyhoeddais adroddiad o sylwedd am na chwrddodd y Bwrdd Iechyd â'i ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ac am nad oedd ganddo gynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-24 a 2025-26.<br>Fe adroddais hefyd ar yr angen i gryfhau rheolaethau'r Bwrdd Iechyd dros y stoc theatr. |

22 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth gysoni parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2024 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon y cronfeydd elusennol wedi cael ei gwblhau'n sylweddol. Nid adnabuwyd unrhyw faterion arwyddocaol. Rwy'n bwriadu darparu fy marn archwilio ar 31 Ionawr 2025.

## Rheoleidd-dra Trafodiadau Ariannol

24 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fod â'r pwerau i gael yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

25 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli'r cyfrifon, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra.

26 Ar gyfer 2023-24, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol. Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ariannol ychwanegol i Fyrddau Iechyd trwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm gyda'u gwariant dros gyfnod o dair blynedd. Y cyfnod o dair blynedd a gaiff ei fesur dan y ddyletswydd hon eleni yw rhwng 2021-22 a 2023-24.

27 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, gan fynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnus o £3,368.889 miliwn o £149.859 miliwn, sydd y tu hwnt i'w bwerau i wario yn fy nhyb i, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd 2023-24. Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd treigl a chael cymeradwyo'r cynllun hwnnw gan weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Byddir yn ystyried bod Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r

ddyletswydd hon ar gyfer 2023-24 os cyflwynodd gynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-24 a 2025-26 a gymeradwywyd gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru, yr oedd yn ofynnol iddynt adolygu ac ystyried cymeradwyo'r cynllun. Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i fod â chynllun tymor canolig integredig tair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2023-24 a 2025-26.

28 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Awdurdod ochr yn ochr â'm barnau pan fo arnaf eisiau amlygu materion. Yn sgîl y materion a nodir uchod, fe gyhoeddais adroddiad o sylwedd a oedd yn nodi'r manylion ffeithiol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

29 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio'i adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar lefel cyfarwyddiaethau i sicrhau eu bod o gymorth i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbed costau'r Bwrdd Iechyd; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus.

30 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Adolygiad o Lywodraethu Gweithredol

31 Fe wnaeth fy ngwaith archwilio a yw trefniadau llywodraethu ar lefel cyfarwyddiaethau o gymorth i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn benodol, fe archwiliais pa un a oes gan gyfarwyddiaethau drefniadau arwain a llywodraethu eglur, pa un a ydynt yn cynnal busnes yn effeithiol a pha un a oes ganddynt drefniadau da i reoli perfformiad a risgiau.

32 Canfu fy ngwaith fod y strwythur gweithrediadau cyfredol yn gymhleth ac aml-haen, gan arwain at linellau atebolrwydd aneglur o fewn cyfarwyddiaethau gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i ymdrin â'r materion hyn trwy gyflwyno strwythur gweithrediadau newydd. Fodd bynnag, mae oedi wrth gyflwyno'r strwythur newydd yn achosi ansefydlogrwydd yn nhimau arwain cyfarwyddiaethau. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i nifer y swyddi gwag yn nhimau arwain y cyfarwyddiaethau, sy'n golygu bod nifer o rolau interim, trefniadau dirprwyo ar ran swyddogion ar rengoedd uwch ac arweinwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol sy'n arwain at gylchoedd gwaith mawr i rai uwch

arweinwyr eu cyflawni. Mae’r strwythur a’r trefniadau arweinyddiaeth yn y Gyfarwyddiaeth Cyllid, Digidol a Pherfformiad yn fwy eglur, ac er bod tîm arwain sefydlog, bu trosiant diweddar mewn nifer o rolau yn y Tîm Cyllid. Mae hyn yn cael ei reoli o fewn y Broses Newid Sefydliadol newydd, sydd wedi codi o gydnabyddiaeth y gellid gwneud gwelliannau pellach i’r swyddogaeth partner busnes cyllid.

33 Nid yw trefniadau llywodraethu o fewn y strwythur gweithrediadau wedi eu dogfennu’n glir. Er y canfuom rai trefniadau da o fewn meysydd unigol, mae trefniadau ar draws y strwythur gweithrediadau’n anghyson ac nid ydynt yn ategu llifoedd gwybodaeth da. Mae rhoi’r strwythur newydd ar waith yn gyfle i gryfhau llifoedd gwybodaeth trwy fapio trefniadau llywodraethu a safoni agendâu a thempledi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd busnes a gynhelir yn nhimau’r cyfarwyddiaethau. Mae trefniadau yn y Gyfarwyddiaeth Cyllid, Digidol a Pherfformiad yn fwy eglur, ond mae angen i’r rhain hefyd gael eu dogfennu.

34 Ceir systemau sicrwydd digonol ar lefel cyfarwyddiaethau, a ategir gan wybodaeth dda am berfformiad a systemau da ar gyfer rheoli risgiau. Ond ceir arfer anghyson o fewn cyfarwyddiaethau gyda chyfle i gryfhau a safoni trefniadau rheoli perfformiad a risgiau yn nhimau’r cyfarwyddiaethau.

## Adolygiad o drefniadau arbed costau

35 Fe wnaeth fy adolygiad archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o adnabod, cyflawni, a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Fe ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 ac fe amlygodd lle gall fod angen i drefniadau gael eu cryfhau ar gyfer 2024-25 a’r tu hwnt.

36 Canfu fy ngwaith na chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol ar gyfer 2023-24 a bod ei hanes o gyflawni arbedion cylchol yn wael. O ystyried y sefyllfa ariannol sy’n gryn her yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25, mae taer angen iddo fynd i’r afael â’r ffactorau sy’n dylanwadu ar ei gostau a chryfhau ei drefniadau ar y cyfan ar gyfer adnabod, cyflawni, a monitro cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau i atal ei sefyllfa ariannol rhag dirywio ymhellach.

37 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth fras am y ffactorau sy’n dylanwadu ar ei gostau ac mae wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau rheolaeth gyllidebol ar lefel weithredol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd da o ddata a chuddwybodaeth i adnabod cyfleoedd i arbed costau, ond mae angen gwella elfennau o’i ddull o ddethol a datblygu cyfleoedd i gyflawni arbedion.

38 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes gwael o gyflawni arbedion cylchol. Bydd hyn, ynghyd â bylchau mewn sgiliau a chapasiti mewn perthynas ag agweddau ariannol a thrawsnewidiol ar gyflawni arbedion a threfniadau rheoli gweithredol annigonol ar gyfer rheoli’r sefyllfa ariannol, yn gysylltiedig â’r gweithgarwch cyfredol i gyflunio strwythurau gweithredol y Bwrdd Iechyd, yn gwneud cyrraedd ei darged arbedion sylweddol uwch ar gyfer 2024-25 yn fwy o her byth.

39 Er bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro arbedion o ran costau ac adrodd arnynt yn gwella, mae cyfleoedd yn bodoli i'w cryfhau ymhellach trwy wella'r modd y creffir ar danberfformiad o ran arbedion, rheoli'r risgiau i gyflawni o fewn y cynlluniau arbedion a adnabuwyd ganddo ar gyfer 2024-25 mewn modd mwy effeithiol, a rhoi'r gwersi ar waith o adolygiadau diweddar o drefniadau llywodraethu arbedion.

## Asesiad strwythuredig

40 Fe archwiliodd fy nhîm drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol: Tryloywder, effeithiolrwydd, a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull cynllunio corfforaethol; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

41 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd gan y Bwrdd Iechyd statws ymyriad wedi ei dargedu (lefel 4) dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

42 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw. Rhoddais sylw'n arbennig i'r canlynol:

- Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- Trefniadau i roi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur, busnes, cyfarfodydd, a llifoedd sicrwydd y Bwrdd a phwyllgorau
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau'r Bwrdd, ei brofiadau, ei gydlynoldeb, a'i ymrwymiad i wella

43 Canfu fy ngwaith, er eu bod yn rheoli cyfnod o newid sylweddol, fod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n parhau i weithio'n dda, gan gadw ffocws clir ar dryloywder cyhoeddus, llywodraethu da, gwella'n barhaus a chlywed gan gleifion a staff.

44 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus, gan roi cyhoeddusrwydd da i gyfarfodydd y Bwrdd, y gall aelodau'r Cyhoedd arsylwi arnynt yn y cnawd, yn rhithwir neu drwy recordiad a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gadw'r materion mwyaf sensitif yn ôl ar gyfer sesiynau preifat gan y Bwrdd a phwyllgorau, gyda chrynodeb lefel-uchel o'r trafodaethau'n cael ei gyhoeddi ar-lein.

45 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trefniadau cadarn i roi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd, gyda Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog cyfoes, a adolygir o leiaf yn flynyddol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau cyfredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu a diweddaru ei gynllun dirprwyo yn ddiweddar, gan ymdrin â bylchau a adnabuwyd. Bydd angen i'r cynllun dirprwyo gael ei adolygu'n gyson wrth i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno ei strwythur gweithrediadau newydd. Ceir prosesau a threfniadau goruchwylio eglur i

sicrhau y cydymffurfir â datganiadau o fuddiant a bod polisïau'n cael eu diweddaru'n gyson.

46 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n parhau i weithio'n effeithiol, gyda Chylchoedd Gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfoes. Mae'r rhain yn rhoi adlewyrchiad priodol o gyfrifoldebau goruchwylio ar gyfer fframwaith monitro ymyriad wedi ei dargedu'r Bwrdd Iechyd a'i risgiau corfforaethol a strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu strwythur a threfniadau ei bwyllgorau, a bydd yn rhoi newidiadau y cytunwyd arnynt ar waith ym mis Ebrill 2025. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n parhau i gael eu cadeirio a'u gweinyddu'n dda, gyda threfniadau wedi eu cryfhau i uwchgyfeirio materion risg-uchel i'r Bwrdd. Mae cyfarfodydd pwyllgorau'n cael eu cefnogi'n dda gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol ac fe geir cynrychiolaeth dda o blith Aelodau Gweithredol a swyddogion. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cael papurau amserol o ansawdd da, y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i'w cryfhau fel rhan o wella'n barhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i glywed gan ystod o gleifion a staff ac mae ganddo drefniadau wedi eu gwella ar gyfer teithiau gwirio diogelwch cleifion.

47 Mae'r Bwrdd yn rheoli cyfnod sylweddol o newid yn dda ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i sicrhau ei fod yn dal i fod yn gydlynus ac yn effeithiol trwy gyfleoedd datblygu'r Bwrdd a threfniadau i wella'n barhaus. Mae paratoadau i sefydlu cydbwyllgor gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n mynd rhagddynt yn dda, gyda'r cyfarfod cyntaf i fod i gael ei gynnal ym mis Ionawr 2025.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

48 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Rhoddais sylw'n arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a
- thracio argymhellion.

49 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau priodol ar gyfer goruchwyliaeth gorfforaethol ar risg, perfformiad, tracio argymhellion, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen i'r fframwaith rheoli perfformiad gael ei ddiweddaru i adlewyrchu trefniadau perfformiad cyfredol, a dylid darparu diweddariadau mwy mynych ar roi'r Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd ar waith.

50 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod â dull aeddfed o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol a threfniadau rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i gael yr Adroddiad Sicrwydd Risg, sy'n darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg, a chynnydd o ran rhoi'r Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig ar waith. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ddatganiad cyfoes ar barodrwydd i dderbyn risg, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2024. Mae goruchwyliaeth ar berfformiad sefydliadol gan y Bwrdd ac ar lefel

gorfforaethol wedi cael ei chryfhau, er enghraifft trwy gyflwyno fframwaith uwchgyfeirio mewnol. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r fframwaith rheoli perfformiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau cyfredol.

51 Ceir goruchwylio a chraffu corfforaethol priodol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a chan gydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) fe gyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei adroddiad blynyddol a oedd yn nodi sut y cyflawnodd y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd yn ystod 2023-24. Fodd bynnag, mae angen diweddariadau mwy rheolaidd ar weithredu'r Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau cadarn ar gyfer tracio argymhellion archwilio ac adolygu, gyda threfniadau uwchgyfeirio mewnol yn cael eu defnyddio i gryfhau trefniadau gweithredol ar gyfer tracio argymhellion archwilio.

## Dull cynllunio corfforaethol

52 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio corfforaethol cadarn. Rhoddais sylw'n arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r modd y cyflawnir strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

53 Canfu fy ngwaith fod trefniadau i ddatblygu a chyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn dal i gael eu hategu gan oruchwyliaeth briodol, a danategir gan ddull pragmatig o ymdrin â materion capasiti'r tîm cynllunio. Ceir cyfle i adolygu amcanion llesiant fel rhan o weithgarwch arfaethedig i ddiweddaru'r strategaeth hirdymor.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau corfforaethol priodol i roi cymorth i ddatblygu cynlluniau, megis ei Gynllun Blynyddol a'i Gynlluniau Gwasanaethau Clinigol, a danategir gan ddull pragmatig i oresgyn materion capasiti'r tîm cynllunio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â ffocws ar ei strategaeth hirdymor; fodd bynnag, mae wedi dynodi ei fwriad i'w diweddaru yn ystod 2025. Mae hefyd yn bwriadu adolygu ei amcanion llesiant, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2019. Mae hyn yn gyfle i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei amcanion llesiant fel rhan o waith i ddiweddaru ei strategaeth hirdymor i sicrhau bod yr amcanion strategol a llesiant yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd.

55 Mae trefniant y Bwrdd Iechyd ar gyfer goruchwylio ei Gynllun Blynyddol yn dal i fod yn gadarn. Ers y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi symleiddio ei amcanion cynllunio ymhellach. Mae ei Gynllun Blynyddol 2024-25 yn mynegi deg amcan cynllunio neu raglen newid strategol â ffocws pendant, sy'n canolbwyntio ar y ddwy her gyfredol, gan hefyd gynllunio ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy yn y tymor canolig a hwy. Mae pwyllgorau'n cadw goruchwyliaeth dda ar gyflawni amcanion cynllunio, sydd â nodau/deilliannau disgwyliedig a fynegwyd yn glir, ac mae gan y Cynllun Blynyddol gynllun cyflawni eglur.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

56 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Rhoddais sylw'n arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

57 Canfu fy ngwaith, er bod y sefyllfa ariannol ar gyfer 2024-25 yn dal i fod yn her eithriadol, fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella ei sefyllfa ariannol ac i ddatblygu map ffordd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Ceir dull eglur o hyd ar gyfer cynllunio ariannol a rheoli a monitro'r sefyllfa ariannol, ond mae angen cryfhau'r dull o gyflawni cyfleoedd i arbed costau.

58 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion a dyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2023-24, a chyda sefyllfa ariannol sy'n dal i fod yn her, ni fydd yn eu cyflawni yn 2024-25. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella ei sefyllfa ariannol. Ac yntau'n gweithio i ddiffyg ariannol a gynllunnir o £64 miliwn ar gyfer 2024-25, ym Mis 7, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ac roedd yn adrodd ar danwariant yn erbyn ei ddiffyg misol o £5.3 miliwn a broffiliwyd (£4.3 miliwn). Mae hyn yn welliant o'i gymharu â Mis 4, pan oedd y bwlch yn £10.7 miliwn, a'r diffyg misol cyfartalog yn £5.7 miliwn.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal proses cynllunio ariannol eglur ac mae'n cymryd camau i ddod yn sefydlog yn ariannol, er bod cynnydd ar ei hôl hi o'i gymharu â'r amserlen a bod taer angen cryfhau ei ddull o gyflawni cyfleoedd cynaliadwy i arbed costau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â threfniadau priodol i oruchwylio a chraffu ar reoli a rheolaethau ariannol, a gryfhawyd ymhellach trwy drefniadau i gefnogi ymyriad wedi ei dargedu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trefniadau da ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol, gyda mwy o graffu ar faterion sy'n cyfrannu at yr heriau ariannol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2024.

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Barn ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Ein bwriad yw cyhoeddi'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol a'n Barn ynglŷn â Datganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol ym mis Ionawr. | Bwriedir cyhoeddi'r farn archwilio ar 31 Ionawr 2025. |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Lywodraethu Gweithredol | Mai 2024 |
| Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau | Gorffennaf 2024 |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Tachwedd 2024 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Ebrill 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Ceir nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gofal brys ac argyfwng: Gofal Heb Ei Drefnu: Llif allan o'r ysbyty – Rhanbarth Gorllewin Cymru | Ebrill 2025 |
| Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion: Diweddariad ar gynnydd | Ebrill 2025 |
| Gofal brys ac argyfwng: Trefniadau ar gyfer rheoli'r galw | Ebrill 2025 |
| Adolygiad o adferiad gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio | Ebrill 2025 |
| Adolygiad o drefniadau ar gyfer blaenoriaethu'r rhaglen gyfalaf | Mai 2025 |

| Adroddiad | Amcangyfrif o’r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gofal brys ac argyfwng: Gofal Heb Ei Drefnu: Llif allan o’r ysbyty – Rhanbarth Gorllewin Cymru | Ebrill 2025 |
| Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion: Diweddariad ar gynnydd | Ebrill 2025 |
| Gofal brys ac argyfwng: Trefniadau ar gyfer rheoli’r galw | Ebrill 2025 |
| Adolygiad o’r trefniadau ar gyfer rheoli apwyntiadau cleifion allanol | Gorffennaf 2025 |
| Adolygiad o drawsnewid digidol | Gorffennaf 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £417,663 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fod ar y gweill, yn gyson â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Archwiliad o’r risgiau mewn perthynas â’r cyfrifon

**Arddangosyn 4: archwiliad o’r risgiau mewn perthynas â’r cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn nodi’r risgiau o gamddatganiadau perthnasol a/neu afreoleidd-dra mewn perthynas â’r archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24. Mae’r tabl isod yn rhestru’r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i’r afael â hwy fel rhan o’r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| **Gwrthwneud gan Reolwyr**<br>Mae’r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau’n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol. | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; ac<br>• yn gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• brofi cofnodion dyddlyfr;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn enwedig taliadau gofal sylfaenol; ac<br>• ni wnaethant adnabod unrhyw drafodiadau y tu allan i gwrs arferol busnes.<br>Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o’r gwaith a wnaed. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Dyletswydd Ariannol**<br>Ceir risg sylweddol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sefyllfa ym mis 11 yn dangos diffyg ar gyfer y flwyddyn hyd yma o £62 miliwn a diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £366 miliwn sy'n anghyson â'r cyfanswm rheoli a gyhoeddwyd gan y Gweinidog. Mae hyn, ar y cyd â'r alldroeon ar gyfer 2021-22 a 2022-23 yn golygu y rhagfynegir diffyg dros dair blynedd o £150 miliwn.<br>Os byddwch yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol a hwnnw'n amlygu'r methiant ac yn amodi eich barn ynglŷn â rheoleidd-dra. Mae eich pwysau ariannol cyfredol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn wyrdueddol mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 a'r sefyllfa gronnus dros dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024;<br>• yn gwneud profion ar feysydd yn y datganiadau ariannol sy'n cynnwys dyfarniadau megis croniadau diwedd blwyddyn; i sicrhau yr adroddwyd ar drafodiadau yn y cyfnod cyfrifyddu cywir; ac<br>• yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd sy'n berthnasol dros y tair blynedd. | Gosodais adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol a hwnnw'n egluro'r methiant i gwrdd â'r terfyn adnoddau refeniw tair blynedd ac amgylchiadau hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR)**<br>O 1 Rhagfyr 2023, mae'r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR) a ddefnyddir i gyfrifo'r colledion a balansau llawer o'r darpariaethau yn y cyfrifon wedi cael ei datgomisiynu'n genedlaethol.<br>Ar gyfer gweddill 2023-24, bydd taenlen Excel enghreifftiol yn cael ei defnyddio i gofnodi colledion, taliadau arbennig ac i gyfrifo balansau diwedd blwyddyn.<br>Ceir risg bod trafodiadau a balansau sy'n gysylltiedig â cholledion a thaliadau arbennig wedi eu camddatgan yn berthnasol oherwydd:<br>• bod y broses trosglwyddo data rhwng y system LaSPaR a'r daenlen Excel enghreifftiol heb gael ei chwblhau a ddim yn gywir; a/neu<br>• fod y daenlen Excel enghreifftiol wedi camgyfrifo balansau oherwydd gwallau yn y daenlen/ gwallau modelu a/neu fod data wedi cael ei roi i mewn yn anghywir. | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn profi cyflawnrwydd a chywirdeb y broses o drosglwyddo data o'r system LaSPaR i'r taenlenni Excel;<br>• yn ystyried dyluniad a gweithrediad rheolaethau (os o gwbl) i liniaru gwallau;<br>• yn adolygu'r daenlen diwedd blwyddyn i sicrhau nad oes gwallau na materion arwyddocaol yn y modd y crynhowyd ffigyrau ar gyfer y cyfrifon; ac<br>• yn adolygu trafodiadau yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Quantum) ar sail samplau. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• brofi cyflawnrwydd a chywirdeb y broses o drosglwyddo data o'r system LaSPaR i'r taenlenni Excel;<br>• ystyried dyluniad a gweithrediad rheolaethau (os o gwbl) i liniaru gwallau;<br>• adolygu'r daenlen diwedd blwyddyn i sicrhau nad oes gwallau na materion arwyddocaol yn y modd y crynhowyd ffigyrau ar gyfer y cyfrifon; ac<br>• adolygu trafodiadau yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Quantum) ar sail samplau.<br>Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a wnaed. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Thrafodiadau Partïon Cysylltiedig**<br>Bernir bod rhai o'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, megis yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a phartïon cysylltiedig, yn berthnasol yn ôl eu natur, gyda lefel perthnasedd is o lawer. Felly mae'r datgeliadau hyn o ran eu hanfod yn dueddol i gamddatganiadau perthnasol. | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn archwilio pob cofnod yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol i wirio eu bod yn berthnasol gywir, a bod cydnabyddiaeth ariannol wedi cael ei thalu ar y lefelau cymeradwy; yn gwirio y cafwyd yr holl ddatganiadau wedi eu llofnodi sy'n angenrheidiol, a'u bod wedi cael eu gwerthuso a'u datgelu'n briodol ac yn gywir. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• archwilio pob cofnod yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a gwirio eu cywirdeb;<br>• cadarnhau bod cydnabyddiaeth ariannol wedi cael ei thalu ar y lefelau cymeradwy; a<br>• gwirio bod yr holl ddatganiadau wedi eu llofnodi sy'n angenrheidiol, a'u bod wedi cael eu datgelu'n briodol ac yn gywir.<br>Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a wnaed. |
| **Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC)**<br>Oherwydd presenoldeb sylweddol RAAC yn Ysbyty'r Llwyn Helyg, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn am brisiad penodol gan y Prisiwr Dosbarth mewn perthynas â RAAC. Mae arolygon manwl eisoes wedi cael eu cynnal ar draws y safle cyfan i asesu faint o RAAC sydd a beth yw ei gyflwr. | Bydd y tîm archwilio:<br>• yn adolygu'r prisiad a gafwyd gan y Prisiwr Dosbarth; ac<br>• yn sicrhau y rhoddwyd cyfrif yn gywir am y prisiad yn natganiadau ariannol 2023-24. | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• adolygu'r prisiad a gafwyd gan y Prisiwr Dosbarth; a<br>• sicrhau y rhoddwyd cyfrif yn gywir am y prisiad yn natganiadau ariannol 2023-24.<br>Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a wnaed. |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.